Adroddiad cryno o waith Cyngor Ysgolion Sul yn 2023

Pleser yw cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw, sy'n crynhoi prif weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Cyhoeddiadau'r Gair yn ystod 2023. Bu'r blynyddoedd diweddar yn rhai heriol iawn i weinidogaeth plant a theuluoedd, a gwelwyd grwpiau gwaith plant, yn Ysgolion Sul, clybiau plant a gwasanaethau pob oed yn diflannu mewn sawl cylch. Bellach mae ardaloedd a threfi cyfan lle nad oes Ysgol Sul neu glwb ar gyfer plant. Daeth yn amlwg bod rhaid gweithredu, a heb os blaenoriaeth y cyfnod nesaf hwn fydd ceisio **annog a chefnogi ail-sefydlu neu sefydlu gwaith newydd mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru**. Bu i ni gychwyn ar y gwaith hwn eleni, gan gynnal nifer **o gyfarfodydd wyneb yn wyneb** - mewn eglwysi lleol, heb son am fynychu cyfarfodydd cyfundebol ac enwadol, a cheisio mynd i ble bynnag mae cynulleidfa yn ymgasglu i drafod dyfodol ein tystiolaeth eglwysig a Christnogol, er mwyn cynnig gair o anogaeth a chymorth ymarferol o ran syniadau ac adnoddau. Diolch am bob gwahoddiad a ddaw i law - gan eglwysi, cyrddau chwarter, diwrnodau gweinidogion, heb son am gyfarfodydd rhithiol. Daeth gwahoddiad i fynychu Cymanfa Gyffredinol EBC a Chorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru i ddweud gair am sefyllfa gwaith plant a chynnal stondin adnoddau, a braf byddai cael yr un cyfle o fewn strwythurau'r enwadau eraill. Erbyn hyn mae adnoddau Cymraeg addas ar gael ar gyfer bob achlysur bron - ar gyfer cynnal Ysgolion Sul (o leiaf 8 cyfres amrywiol o werslyfrau), clybiau plant ac ieuenctid, Llan Llanast, Chwarae a Chredu, deunydd addoli Roots ac adnoddau ar gyfer ymweld ag ysgolion dyddiol. Yr her bellach yw annog ac ysbrydoli pobl yn lleol i fynd ati o ddifri, gan gydweithio o fewn ardaloedd - ac yn gydenwadol lle mae hynny'n ymarferol. Bydd yn braf cael cydweithio gydag enwadau a mudiadau Cristnogol eraill i wireddu hynny, mewn cyfnod lle mae cyfartaledd oed ein cynulleidfaoedd eglwysig yn codi.

Bu cyhoeddi hefyd yn heriol dros gyfnod y clo, ond erbyn hyn daeth galw eto am adnoddau a llyfrau. Wedi 2 flynedd o dorri lawr yn sylweddol iawn ar gyhoeddiadau, braf nodi ein bod wedi llwyddo i greu **rhaglen ddifyr o lyfrau newydd eto ar gyfer 2023/24**. Cafwyd cyfarfod gyda'r Cyngor Llyfrau parthed dyfodol ein cyhoeddiadau, yn dilyn sawl siom o weld ceisiadau yn cael eu gwrthod. Nid yn annisgwyl, maent am lyfrau sy'n eang eu hapêl, ac yn eang ac yn gynhwysol o ran diwinyddiaeth a syniadaeth. Er eu bod yn derbyn bod ein gwerslyfrau / esboniadau a llyfrau defosiynol yn gyffesol eu naws, mae'n debyg mai prin yw'r gefnogaeth y cawn i lyfrau cyffelyb yn y dyfodol - ac o gofio am y dewis sydd eisoes ar gael, mae'n anodd ariannu mwy ohonynt. Fodd bynnag maent yn dal yn awyddus iawn i gefnogi llyfrau gan y wasg, ac yn arbennig llyfrau cofiannol, hanes Cristnogaeth yng Nghymru, a llyfrau sy'n delio gyda phynciau Cristnogol a moesol, ond rhaid peidio bod yn gul yr olwg wrth drafod y materion hyn, gan fod yn agored i safbwyntiau gwahanol. Bu i ni dderbyn arian grant awduron eleni eto (£5000), ond yn anffodus bydd grant cyflogi golygyddion yn dod i ben gyda'r cylch presennol hyd at Ebrill 2024 (tua £6,000). Fodd bynnag fe fydd cyfle i gynnwys symiau golygyddol yn ein ceisiadau grant unigol o hyn ymlaen, gydag ystyriaeth i bob cais yn unigol. Byddwn hefyd yn dal i gyhoeddi llyfrau nad oes modd cael grant iddynt, gan barhau i gyhoeddi ar gyfer anghenion penodol ein heglwysi a'n hysgolion Sul.

Rhai o'r llyfrau a gyhoeddwyd gennym yn ystod 2023 oedd:

Dehongli Bywyd a Gwaith Moses - y drydedd yn y gyfres o esboniadau Hen Destament gan Gareth Lloyd Jones. Cyhoeddwyd mis Mai 2023, pris £8.99.

O Ddydd i Ddydd mewn 365 diwrnod - pigion o fyfyrdodau wedi eu casglu a'u golygu gan Iwan Llewelyn Jones o'r gyfres O Ddydd i Ddydd. Cyhoeddwyd mis Mai 2023, pris £11.99.

Rhedeg yr Yrfa fel Gweinidog yr Efengyl - cyfrol o waith D Ben Rees, yn bwrw trem yn ôl ar 60 mlynedd yn y weinidogaeth, ac yn cynnwys 60 pregeth o'i eiddo. Cyhoeddwyd mis Gorffennaf 2023, pris £14.99.

Liliau Tân - cyfrol wedi ei pharatoi gan Arfon Jones yn adrodd hanes bywyd Dr Rhiannon Lloyd. Cyhoeddwyd mis Gorffennaf 2023, pris £12.99.

Ffenestri Gobaith - Cyfrol o farddoniaeth Gristnogol gan John Emyr. Cyhoeddwyd mis Awst 2023, pris £8.99.

Codi'r Llen - cyfrol o **fyfyrdodau ar ferched yn yr Hen Destament** - project ar y cyd gyda Tabernacl Caerdydd. Cyhoeddwyd mis Tachwedd 2023, pris £13.99.

Gwasanaethu'r Duw Byw - cyfrol o astudiaethau ar stiwardiaeth Gristnogol gan Dafydd Andrew Jones. Cyhoeddwyd mis Awst 2023, pris £8.99.

Cadw'r Cread (addasiad o gyfrol Planet Protectors gan SPCK) gan Helen Davies. Cyhoeddwyd mis Tachwedd 2023, pris £7.99.

Llyfr sticeri Nadolig cyntaf yr asyn - llyfr sticeri lliwgar sy'n ddelfrydol fel anrhegion Nadolig i blant. Cyhoeddwyd mis Medi 2023, pris £2.99.

Edrychwch! Ganwyd Iesu - llyfr stori clawr caled lliwgar sy'n ddelfrydol fel anrhegion Nadolig i blant. Cyhoeddwyd mis Medi 2023, pris £3.99.

Eglwys y Bobl 2 - cyfrol o fyfyrdodau/anerchiadau Beiblaidd yn dilyn blwyddyn B y Llithiadur. Cyhoeddwyd mis Tachwedd 2023, pris £12.99.

Llyfr Piano'r Nadolig - llyfr bwrdd lliwgar i blant yn cynnwys 6 carol boblogaidd ynghyd â phiano electronig yn rhan o'r llyfr. Cyhoeddwyd mis Hydref 2023, pris £10.99.

Cyhoeddwyd 3 teitl arall hefyd, oedd fod i gyrraedd erbyn y farchnad Nadolig, ond oherwydd problemau technegol yn China, ni fu iddynt gyrraedd Cymru tan ddechrau Ionawr - ond byddant yn deitlau cryf at y Nadolig nesaf:

Llyfr sticeri storïau Beiblaidd - llyfr lliwgar fformat mawr A3, gyda sticeri y mae modd eu hail ddefnyddio dro ar ôl tro. Cyhoeddwyd Ionawr 2024, pris £7.99.

Llyfr swn anifeiliaid y Beibl - llyfr bwrdd lliwgar gyda 50 botwm electronig sy'n gwneud synau gwahanol. Cyhoeddwyd Ionawr 2024, pris £12.99.

Llyfr llechen Beiblaidd - llyfr yn cynnwys 40 stori Feiblaidd, sy'n cynnwys sgrin ddigidol LCD a stylus, lle mae modd tynnu lluniau ar y sgrin ddigidol o fewn y llyfr. Cyhoeddwyd Ionawr 2024, pris £12.99.

Treuliwyd amser hefyd yn datblygu llyfrau newydd ar gyfer 2024. Mae hyn yn cynnwys:

Beibl mewn 10 - project ar y cyd efo Pwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd, a fydd yn cyflwyno 66 pennod yn rhoi arweiniad 10 munud i bob llyfr yn y Beibl, mewn print, fel podlediad ac fel ffilmiau mp4. I'w gyhoeddi mis Medi 2024, pris £12.99.

Merched rhyfeddol y Beibl - addasiad o Extraordinary Women of the Bible gan SPCK - cyfrol liwgar i blant. I'w gyhoeddi mis Medi 2024, pris £7.99.

Dal i ganu a chanmol - cyfrol yn olrhain hanes Cymanfaoedd Canu a chyfweliadau gyda nifer o arweinyddion. Trystan Lewis sy'n golygu'r gyfrol hon. I'w gyhoeddi mis Awst 2024, pris £8.99.

Hoff Emynau'r Cymry 2 - y tro yma Delyth Morgans Phillips fydd yn holi 60 o bobl sy'n defnyddio emynau yn eu bywydau bob dydd pa un yw ei hoff emyn nhw. I'w gyhoeddi mis Hydref 2024, pris £9.99.

Eglwys y Bobl 3 - cyfrol o fyfyrdodau/anerchiadau Beiblaidd yn dilyn blwyddyn B y Llithiadur. I'w chyhoeddi mis Tachwedd 2024, pris £12.99.

Dehongli Bywyd a Gwaith Ruth a Llyfr y Pregethwr - y bedwaredd yn y gyfres o esboniadau Hen Destament gan Gareth Lloyd Jones. I'w gyhoeddi mis Mawrth 2024, pris £8.99.

Hoff Adnodau'r Cymry - 60 o Gymry adnabyddus yn rhannu am eu hoff adrannau yn y Beibl gan Beti Wyn James. I'w gyhoeddi mis Gorffennaf 2024, pris £9.99.

Fy Ngweinidogaeth - cyfrol yn cynnwys tua 20 portread o bobl sy'n cyflawni gweinidogaethau gwahanol ac amrywiol gan Carwyn a Nerys Siddall a Dylan Rhys. I'w gyhoeddi mis Medi 2024, pris £9.99.

Carolau'r Cymry - myfyrdodau ar garolau gan E Wyn James. I'w gyhoeddi mis Tachwedd 2023, pris £8.99.

Llythyr gobaith - Llythyr cariad: cyfrol ar hunan les a gofal yn seiliedig ar hanes rhai o gymeriadau'r Beibl gan Glyn Wise. I'w gyhoeddi mis Mawrth 2024, pris £5.99.

Y Goeden Jesse - llyfr lliwgar gweithgaredd a chrefft i blant yn cynnwys taith 25 diwrnod drwy gyfnod yr adfent. I'w gyhoeddi mis Hydref 2024, pris £4.99.

Coeden y Pasg - llyfr lliwgar gweithgaredd a chrefft i blant yn cynnwys taith 40 diwrnod trwy gyfnod y grawys. I'w gyhoeddi mis Ionawr 2025, pris £4.99.

Llwybr Cadfan - Cyfrol bererindod farddonol yn dilyn Llwybr Cadfan gan Sion Aled a Sian Northey. I'w gyhoeddi mis Mai 2024, pris £8.99.

Llyfr lliwio Beibl Bach Stori Duw - llyfr lliwio yn cynnwys 60 o luniau o'r Beibl poblogaidd hwn. I'w gyhoeddi mis Mai 2024, pris £4.99.

Gweddïo drwy'r Salmau - cyfrol o 150 o weddïau gwreiddiol gan Euros Jones Evans yn seiliedig ar y Salmau. I'w gyhoeddi mis Mai 2024, pris £14.99.

Arglwydd, dysg i mi weddïo - cyfrol o ysgrifau sy'n astudiaethau yn trafod gweddi. I'w gyhoeddi mis Mai 2024, pris £6.99.

Byw'r Weddi - cyfrol gan Trystan Owain Hughes yn trafod Gweddi'r Arglwydd. I'w gyhoeddi mis Gorffennaf 2024, pris £7.99.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn - cyfrol o 50 gwasanaeth gan Watcyn James yn dilyn trefn y flwyddyn eglwysig. I'w gyhoeddi mis Gorffennaf 2024, pris £11.99.

Sut i Weddïo - addasiad Meirion Morris o lyfr Pete Greig ar arweiniad i weddi . I'w gyhoeddi mis Mehefin 2024, pris £14.99.

Ambell gam drwy'r flwyddyn - cyfrol o bregethau ac emynau gan Noel Davies. I'w gyhoeddi mis Mehefin 2024, pris £8.99.

Meseia Eseia - cyfrol o 31 myfyrdod adfent yn seiliedig ar eiriau Eseia gan Meirion Thomas. I'w gyhoeddi mis Hydref 2024, pris £4.99.

Gair Duw ar lafar gwlad - cyfrol o waith Dewi Arwel Hughes, wedi ei olygu gan E Wyn James yn olrhain tarddiad llawer o'n hymadroddion Cymraeg. I'w gyhoeddi mis Awst 2024, pris £6.99.

Ganwyd Iesu - llyfr swn y Nadolig - llyfr popyp lliwgar gyda 6 botwm electronig sy'n gwneud synau gwahanol. I'w gyhoeddi mis Hydref 2024, pris £11.99.

Llyfr canu carioci Carolau'r Nadolig - llyfr bwrdd lliwgar gyda 6 botwm electronig sy'n canu 6 carol gwahanol. I'w gyhoeddi mis Hydref 2024, pris £11.99.

Cyfres jigso's y Gair - 3 jigso newydd: Y Nadolig / Porthi'r Pum Mil / Arch Noa - 3 jigso lliwgar 50 darn mewn bocs. I'w cyhoeddi mis Hydref 2024, pris £7.99 yr un.

Cyfrol o **bregethau'r diweddar Hugh Matthews**.

Hunangofiant - cyfrolau gan Aled Edwards a Hywel Meredydd.

Mae gwaith ar ein **5 gwefan** yn parhau. Mae gwefan www.gobaith.cymru sy'n cynnwys yr holl gyfieithiadau o emynau cyfoes yn cael ei ddiweddaru yn gyson - ac awdurdodwyd 44 o ganeuon newydd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Bu i ni hefyd ychwanegu casgliad o ganeuon Plygain at y wefan. Mae adnoddau hefyd yn cael eu hychwanegu i www.gair.cymru yn rheolaidd, ac un adran newydd yw adnoddau Gwyl Ddewi. Rydym hefyd yn parhau i rannu'n gyson ar ein tudalennau ar y **cyfryngau cymdeithasol**. Cyhoeddwyd ein **bwletin blynyddol CYSylltiad** hefyd ym mis Hydref, fel cylchgrawn lliwgar 16 tudalen, ynghyd â nifer o erthyglau yn Cenn@d, Y Tyst a Cristion.

Mae adnoddau digidol newydd yn cael eu creu yn rheolaidd - gan gynnwys llawer o adnoddau am ddim. Lluniwyd cynllun **darllen y Beibl mewn blwyddyn** ar gyfer dechrau'r flwyddyn, gyda chanllaw wythnosol i fynd trwy brif themau y Beibl, gan ddefnyddio beibl.net mewn 365 o storïau.

Daeth **elusen Lift the Lid** - elusen Gristnogol oedd yn rhannu deunyddiau gyda ysgolion i ben. Roedd Arfon Jones wedi trosi nifer o'u hadnoddau i'r Gymraeg, oedd i'w gael ar eu gwefan. Wrth ddod â'r elusen i ben bu iddynt drosglwyddo'r asedau hynny i'n gofal ni, ac maent bellach ar wefan gair.cymru gennym i'w lawrlwytho am ddim.

Cawsom gyfle i wneud cais am arian trwy **gronfa 'Goroesi' y Cynulliad** ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru, yn ymwneud efo'r cynnydd mewn costau wrth geisio cynnal busnes o ran ynni / staffio ayyb. Yn dilyn y broses grant o fwydo ystadegau a ffigyrau cawsom gadarnhad yn ddiweddar bod y swm o £7,000 wedi ei gymeradwyo ar ein cyfer.

Bu i ni sicrhau presenoldeb yn y dair brifwyl genedlaethol eto eleni - yn **Llanelwedd, Llanymddyfri a Phwllheli** er mwyn trefnu stondin lyfrau ac adnoddau oddi fewn i **Babell yr Eglwysi.** Braf oedd croesawu cannoedd o blant i mewn atom ar gyfer y gweithgareddau lu, a hefyd nifer o arweinwyr a rhieni yn troi mewn i'r stondin i brynu llyfrau.

Gweithio drwy argyfwng i aildanio gweinidogaeth i blant - yng Nghymru

Yn ystod mis Mai eleni rwyf wedi cael cyfle i ymweld â phedwar digwyddiad gwahanol, a hynny yn rhinwedd fy ngwaith gyda Chyngor Ysgolion Sul. Mae'r pedwar ymweliad hyn yn eu tro wedi arwain at ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y gwaith o ran wynebu rhai o'r heriau sy'n bodoli yn y cyfnod ol-covid, a sut y gallwn symud ymlaen o hynny gyda'n gweinidogaeth a chenhadaeth ar gyfer eglwysi Cymru. Roedd hyn yn amserol iawn o ran gwaith cyfredol y Cyngor Ysgolion Sul, gan fod ein cynllun gwaith ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn y broses o gael ei ail-ddiffinio, i gyfarfod ag anghenion ein cyfnod. Wedi tair blynedd hynod heriol i waith plant yn ein heglwysi, erbyn hyn daeth yn amser i feddwl o ddifri sut y mae modd cyrraedd y 95% o blant nad ydan nhw bellach yn rhan o fywyd yr eglwys mewn unrhyw ffordd. Ar yr un pryd mae angen i ni gofio bod yna blant yn dal yn ein mysg, a bod angen meddwl sut y gallwn eu helpu i ddod yn ddilynwyr a disgyblion i Iesu trwy'n cynlluniau dysgu a'r modd y gallwn eu cynnwys y ein haddoliad.

Bu disgwyliad gan lawer y byddai pethau yn raddol yn disgyn nôl i 'fel roedden nhw cyn Covid', ond y realiti mewn llawer o lefydd yw nad yw hynny wedi digwydd, a bellach mae angen meddwl am ffyrdd newydd a gwahanol. Rhaid derbyn bod patrymau'r Sul wedi newid, ac arferion teuluol wedi newid, a bod sefyllfa pob un gymuned, boed ddinesig neu wledig angen cynllun wedi ei deilwra ar gyfer y sefyllfa leol honno. Mae ffactorau fel nifer ac oed gwirfoddolwyr, adeiladau ac adnoddau i gyd yn effeithio ar yr hyn y mae modd i ni ei ddarparu yn lleol. Mewn llawer man ni fydd cynnal cyfarfod wythnosol bellach yn bosib nac yn ymarferol, ac efallai na all un eglwys gynnal y gweithgarwch fel mewn cyfnod a fu. Mae'n bosib mai un cyfarfod misol, yn rhyng-enwadol, efallai yn yr ysgol ar nos Iau fydd y ffordd ymlaen? Bydd angen medelau gwahanol ar gyfer pob cymudeb ffydd, a gobeithio y caiff pawb yr hyder i wneud hynny, heb deimlo'n fethiant nad oes modd cynnal pethau fel ag y bu yn y dyddiau cynt. Y gofid ar hyn o bryd yw clywed cynifer yn adrodd nôl gan ddweud, 'does 'na ddim plant acw erbyn hyn'. Y gwir plaen yw bod y plant yn dal yno yn ein cymunedau, ond nad yw'r eglwysi yn gallu darparu cyfleuon ar eu cyfer.

Bydd llawer o arweinwyr a chynulleidfaoedd, wrth fedyddio plant, yn addo gerbron Duw i gynnig 'hyfforddiant yn yr efengyl i'r plentyn hwn a'r holl blant eraill yn ein mysg', ond eto yn torri'r adduned hwnnw wrth i'r gwasanaeth bedydd ddod i'w derfyn. Tydi parhau i fedyddio, heb gynnig unrhyw gefnogaeth i'r plant a'u teuluoedd ddim yn ddigon da! Cofiaf y stori ar wefan CymruFyw y BBC bedair mlynedd nôl, lle roed y Parch D Ben Rees yn cwestiynnu a fyddai na eglwysi Cymraeg dal yn agored yn 2050. Mae'r hyn sydd wedi digwydd ers hynny dros gyfnd byr o bedair blynedd yn frawychus, ac erbyn hyn mae'n gwbl gwbl allweddol ein bod yni ymrwymo i wneud ail-gysylltu gyda phlant a theuluoedd yn flaenoriaeth uwchlaw pob dim arall.

Wrth baratoi ar gyfer y gynhadledd yn Hwngari, yr un neges oedd yn dod o gynrychiolwyr y gwledydd, sef bod 'na argyfwng ym maes gwaith plant, a bod angen ail-danio'r gwaith ar fyrder. Mae'n debyg bod llawer ohonom wedi teimlo'n ddigalon dros y blynyddoedd diwethaf, ac efallai yn ansicr o wybod sut i ymlwybro ymlaen. Mae'n waith heriol ar y gorau, ac ar adegau yn unig iawn - a dyna werth cyd-gyfarfod ag eraill bob amser, i ysbrydoli a chalonogi. A dyna'r hyn a brofais innau dros y mis a aeth heibio.

Aeth yr ymweliad cyntaf â fi i'r Ffair Lyfrau Rhyngwladol yn Llundain, ac roedd yn gyffrous gweld y miloedd o bobl sy'n rhan o'r diwydiant cyhoeddi yn cyfarfod i drafod cytundebau, cyfieithu ac

addasu cyfrolau o bob math. Roedd gan Gyhoeddi Cymru stondin yno, yn atgoffa'r diwydiant bod yna gyhoeddi byrlymus yng Nghymru, yn gyhoeddwyr ac argraffwyr, a'n bod yn rhan o ddiwydiant anferth byd-eang. Yn yr un ffordd, roedd yn braf i mi gael cyfarfod gyda'r cyhoeddwyr Cristnogol, a gweld ehangder a chreadigrwydd y dewisiadau oedd ar gael.

Wedi dau ddiwrnod o grwydro llawr y ffair, roedd nifer o gyfrolau wedi denu fy sylw, ac felly yn dychwelyd i Gymru yn gynhyrfus wrth feddwl am y cyfle i'w cyhoeddi yn Gymraeg. Yn eu plith roedd llyfr storiâu Beiblaidd yn cynnwys sgrin LCD ar ffurf llechen, gyda stylus pwrpasol, er mwyn i blant dynnu lluniau arno a'u cadw fel cofnod. Hwn fydd y llyfr cyntaf yn y Gymraeg efo sgrin ddigidol oddi mewn iddo. Roedd llyfr arall yn cynnwys 60 botwm ar y clawr, ac wrth wasgu'r botymau gyda lluniau anifeiliaid arnynt roedd y llyfr yn gwneud sŵn yr anifail perthnasol. Llyfr arall ar gyfer y Nadolig fydd cyfrol o garolau i blant, gyda phiano yn cael ei bweru gan fatris wedi ei ludio ar glawr y llyfr. Mewn oes lle na fydd llawer o blant yn clywed straeon Beiblaidd yn rheolaidd, diolch am lyfrau fel hyn a fydd yn cael eu prynu gan rieni dros gyfnod y Nadolig. Diolch am gael fy atgoffa bod i lyfrau eu lle o hyd, a bod angen llyfrau Cristnogol da arnom o hyd er mwyn adrodd yr hanes oesol am Iesu Grist.

A gall bob un ohonom fod yn rhan o hyn, drwy brynu llyfrau i'w rhannu i blant, efallai i wyrion ac wyresau, neu or-wyrion. Mae modd rhoi llyfrau i ysgolion lleol hefyd, neu i blant yn ein cymdogaeth. Dyma weithred syml y gall pawb ei wneud, gan rannu newyddion da yn ein cymunedau.

O'r Ffair Lyfrau, daeth cyfle wedyn i fynychu cynhadledd trefnyddion gwaith plant Ewropeaidd yn Hwngari. 80 ohonom, i gyd yn wynebu'r un heriau, yn cael rhannu pryderon a gofidiau, ond wrth fod yng nghwmni criw a oedd yn teimlo'n angerddol dros bwysigrwydd cenhadaeth i blant, fe droes y sgwrs yn un gynhyrfus yn fuan iawn, yn son am y cyfleoedd a'r posibiliadau. Gweithio drwy argyfwng i ail-danio'r gwaith oedd y ffocws. Diolch am gyfle i annog ein gilydd, ac am gael ein hatgoffa o bwysigrwydd y gwaith hwn. Gobeithio bod yr 80 ohonom, wedi dychwelyd i'n gwledydd, nid gyda'r gair 'argyfwng' yn aros yn y cof, ond yr angerdd i 'ail-danio' yn gyrru ein gwaith. Er bod nifer y plant yn ein gofal wedi gostwng yn ddiweddar, cofiwn ar yr un pryd bod dal gennym nifer sylweddol sy'n gysylltiedig â'r eglwys mewn rhyw ffordd neu gilydd, a bod angen manteisio ar y cyfleoedd i'w cynnwys yn ein trefniadau.

I mi, bu'n brofiad cyffrous wrth wrando ac elwa o brofiadau eraill, a sylweddoli ein bod i gyd yn rhan o'r un gwaith. Dyma brofiad y gallwn ninnau elwa ohono yng Nghymru hefyd. Bydd llawer mewn eglwysi lleol wedi digalonni, ac efallai ddim yn gweld y gallant wneud fawr ddim ar eu pennau eu hunain. Byddai cyfarfod yn lleol gydag eglwysi eraill, o draddodiadau gwahanol yn gyfrwng gwych i'n hatgoffa bod yna eraill allan yna yn rhannu'r un weledigaeth â ni. Un flaenoriaeth i mi am y flwyddyn nesaf fydd trefnu nifer o gyfarfodydd mewn cylchoedd lleol i drafod pa waith sy'n cymryd lle yno yn barod, a pha weinidogaethau newydd y gellid ei ddatblygu.

Erbyn hyn mae 'na gyfoeth o adnoddau ar gael, ar gyfer cynnal ysgolion Sul, clybiau plant ac ieuenctid, addoliad creadigol teuluol a gwaith ysgolion. Bu rhai yn cwestiynu gwerth datblygu adnoddau fel Llan Llanast, Chwarae a Chredu a Roots, yn wyneb y nifer isel o ddefnyddwyr. Onid oes angen edrych ar hyn o gyfeiriad gwahanol, a meddwl sut gallwn ni gynyddu'r defnydd o'r adnoddau gwerthfawr hyn. Rhoir pwyslais ar yr angen i werthuso a chloriannu pob dim y dyddiau yma, a'r angen i gyfiawnhau pob datblygiad newydd gyda ffigyrau defnyddwyr. Yr her i ni ar hyn o bryd yw defnyddio'r adnoddau hyn i gyd er mwyn cyfoethogi profiad plant yn ein gweithgaredd eglwysig. Mae dal angen adnoddau creadigol a chyfoes arnom, o wefannau sy'n cynnwys adnoddau

digidol a chaneuon Cristnogol cyfoes i adnoddau lliwgar i roi yn nwylo ein plant.

Wedi dychwelyd o Hwngari, daeth yn amser i osod stondin yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri, a threulio wythnos yno yn cyfarfod cannoedd o blant ac arweinwyr, yn weinidogion, athrawon ysgol Sul ac athrawon ysgol. Braf oedd cael ein hatgoffa o gywreinrwydd ysbrydol y plant, gan ein hatgoffa unwaith eto o bwysigrwydd cynnig cyfleoedd iddynt drafod y ffydd. Ond cafwyd nifer o sgyrsiau gan arweinwyr hefyd yn digalonni wrth adrodd nad oes gwaith plant yn eu cylch, a bod y plant wedi diflannu. Efallai eu bod yn anweledig, ond maent yn dal yno, a cheisiwyd annog pawb i feddwl yn greadigol am yr hyn sy'n bosib. Ac fel y bu i'r gwirfoddolwyr o'r eglwysi lleol ymuno gyda ni yn yr Eisteddfod i fod ar faes yr Urdd, efallai y gallwn ninnau hefyd fod yn 'halen a goleuni' wrth ymuno â gweithgareddau'r Urdd neu'r Ffermwyr Ifanc yn ein cymunedau lleol.

Ychydig ddyddiau wedi dychwelyd o Lanymddyfri, roedd Llundain yn galw unwaith eto, y tro yma gynhadledd 48 awr, ar gyfer rîm cynhyrchu Roots, yn ysgrifenwyr a golygyddion, a ninnau fel rheolwyr. Mae Roots ar fin ail frandio a lansio ei adnoddau wythnosol ar gyfer plant a phob oed, a chafwyd cyflwyniadau graenus gan y tîm golygyddol yn rhannu eu cynnwrf wrth baratoi i lansio ym mis Gorffennaf eleni. Gwariwyd swm sylweddol ar wefan newydd, a helaethu'r adnoddau yn y cylchgronau. Eto, roedd yn gynhyrfus bod ynghanol y bwrlwm hwn, a thystio i frwdfrydedd tîm ymroddedig o bobl sy'n paratoi adnoddau cyfoes a pherthnasol ar ein cyfer bob wythnos o'r flwyddyn, sy'n addas ar gyfer y Sul a chyfarfodydd canol wythnos. I ni yng Nghymru mae dewis wythnosol o adnoddau Cymraeg ar gael gan Roots hefyd, gan gynnwys gweddïau, 2 daflen waith i blant a dewis o emynau. Os ydyn am gyfoethogi ein haddoliad, boed i oedolion neu ar gyfer addoli pob oed, mae Roots yn adnodd amhrisiadwy, sy'n ein hysbrydoli i greu gwasanaethau creadigol a pherthnasol. Coifiaf rhywun yn dweud wrthyf un tro bod na wahaniaeth mawr rhwng yr hyn mae athrawon ysgol Sul yn chwilio amdano, ar hyn sydd ei agen arnynt go iawn. Efallai bydd rhai yn credu bod detholiad o daflenni gwaith syml yn ddigonol, ond yr hyn sydd ei 'angen' yw deunydd sy'n helpu i greu disgyblion a dilynwyr gydol oes i Iesu.

Wedi mis o grwydro, mae dau beth wedi dod yn gliriach yn fy meddwl. Mae gennym stori i'w rhannu / cenhadaeth i'w gyflawni, ac mae'r hyn sydd ei angen arnom i wneud hynny o ran adnoddau eisoes yn ein meddiant.
OND mae angen dybryd am weithwyr a gwirfoddolwyr i ail danio'r gwaith yn lleol, ac i ddarganfod y ffyrdd gorau o wireddu hynny.

'Meddai Iesu wrth ei ddisgyblion, "Mae'r cynhaeaf mor fawr, a'r gweithwyr mor brin! Felly, gofynnwch i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd." Mathew 9:37 beibl.net